Protocol ar y cyd o ran Diogelu Plant a Phobl Ifanc a effeithir gan Oedolion sy'n edrych ar Ddeunydd Cam-drin Plant yn Rhywiol

ar gyfer Ymarferwyr Aml-asiantaeth

Cadarnhawyd gan Grŵp Polisïau a Gweithdrefnau NWSCB *Medi 2024*

Dyddiad Cyhoeddi *13/12/2024*

Pwrpas

Nod y canllaw hwn yw:

Amlinellu prosesau amddiffyn plant ar gyfer ymarferwyr a darparu canllawiau ymarfer i gynorthwyo ymarferwyr sydd yn gweithio â phlant a theuluoedd a effeithir arnynt gan oedolion sydd yn edrych ar ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol - yn enwedig ar-lein, yn defnyddio dyfeisiau digidol;

- Nodi egwyddorion allweddol i helpu i lywio asesiadau;
- Gwella cydweithio rhwng asiantaethau;
- Ystyried rhai o'r goblygiadau ymarfer;
- Darparu trosolwg o'r negeseuon cyfredol o faes ymchwil a gwybodaeth greiddiol.

Defnyddir amrywiol eiriau neu frawddegau yn y ddogfen hon i roi'r disgrifiad gorau o ymddygiadau neu nodweddion rhyw a rhywioldeb (e.e. gwyredigaeth rywiol, deunydd gwyrdroëdig ar y Rhyngrwyd, pornograffi) ac ni fwriedir iddynt gynrychioli unrhyw werth neu farn foesol. Cymerwyd gofal i geisio defnyddio mynegiannau addas sydd yn debygol o gael eu deall yn eang, ond mae'n anochel y bydd y rhain yn destun dehongliad.

Ei brif ffocws yw cyflawnwyr sy'n oedolion. Mae pobl ifanc sydd yn arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol yn golygu bod angen defnyddio dull sy'n integreiddio eu hanghenion fel pobl ifanc gyda'r ymddygiad niweidiol.

Fel yn achos unrhyw asesiad amddiffyn plant, mae'n rhaid i'r ymarferydd ddefnyddio yr holl adnoddau yn y fframwaith asesu a pheidio â dibynnu ar un ffynhonnell dystiolaeth yn unig mewn perthynas â risg.

Cwmpas

Mae ymarferwyr yn y meysydd Gofal Cymdeithasol a Chyfiawnder Troseddol yn wynebu ceisiadau cynyddol i asesu'r risg a achosir gan unigolion sydd wedi cael eu dal yn edrych ar ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol (cyfeiriwyd at hyn yn flaenorol fel delweddau anweddus o blant) o ffynonellau amrywiol yn cynnwys ar-lein, y we dywyll, llwyfannau rhannu rhwng cyfoedion, ffrydio yn defnyddio dyfeisiau digidol. Hefyd ar ffurf copi caled - ffotograffau, recordiadau (DVD, tap fideo), camerâu.

Y cwestiwn allweddol ar gyfer ymarferwyr: *A yw'r math yma o droseddwr yn debygol o gyflawni/eisoes wedi cyflawni troseddau rhywiol gyda phlentyn neu blant?*

Mae'r protocol yma yn edrych ar y broses asesu mewn perthynas â'r mater yma.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldeb yr ymarferwyr aml-asiantaeth fydd cydweithio er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc.

Talfyriadau

AP - Amddiffyn Plant

Cydraddoldeb

Mae'n rhaid gweithredu'r Deddf Cydraddoldeb 2010 i sicrhau nad oes gwahaniaethu ar sail: Hil ac Ethnigrwydd; Anabledd; Oedran; Rhywedd; Cyfeiriadedd Rhywiol; Crefydd a Chredoau; y Gymraeg neu Hawliau Dynol; Beichiogrwydd a Mamolaeth; Ailbennu Rhywedd a Phriodas a Phartneriaeth Sifil.

Dogfennau Perthnasol (ctrl + clic i ddilyn y dolenni isod):

- Deddf Plant 1989
- Deddf Plant 2004
- Deddf Cyhoeddiadau Anweddus 1959
- Deddf Amddiffyn Plant 1978
- Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988
- Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000
- Deddf Troseddau Rhywiol 2003
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Codau Ymarfer SSWBA
- Sylfaen Lucy Faithfull
- Canolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Canolfan CSA)

Cynnwys

Adran	Teitl	Tudalen
1.0	Cyd-destun Cyfreithiol	5.
2.0	Canllawiau i Wasanaethau Plant a Theuluoedd Pan Amheuir Cam-drin Plant ar y Rhyngrwyd	6.
3.0	Ymholiad Adran 47 (Deddf Plant 1989)	7.
4.0	Canlyniad Ymchwiliad A.47	8.
5.0	Ymweliad Datgeliad	9.
6.0	Asesiad Gofal a Chymorth	9.
7.0	Asesiad Arbenigol	11.
8.0	Canllawiau Arferion Da	12.
9.0	Canllawiau ar gyfer Asesu Gofalwyr Amddiffyn Posibl	12.
10.0	Cyfweliad â Phlant sydd mewn cysylltiad â Chyflawnwr Honedig	16.
11.0	Cyfweliad â'r Cyflawnwr Honedig a'r Partner	17.
12.0	Goblygiadau i Ymarferwyr	19.
Atodiad 1	Asesiad o Gapasiti i Amddiffyn	20.
Atodiad 2	Fframwaith ar gyfer Asesu	20.
Atodiad 3	Canllawiau Asedau (Timau Troseddau Ieuenctid)	24.
Atodiad 4	Canllawiau System Asesu Troseddwyr (Prawf)	26.
Atodiad 5	Negeseuon o Waith Ymchwil	26.

1.0 Cyd-destun Cyfreithiol

Mae Deddf Troseddau Rhywiol 2003 yn cynnwys nifer o droseddau sydd yn gysylltiedig â cham-drin plant ar-lein.

O dan y Ddeddf, mae'n drosedd cymryd, creu, caniatáu cymryd, dosbarthu, dangos, meddu gyda'r bwriad o ddosbarthu neu hysbysebu delweddau anweddus o blant dan 18 oed (Adran 1 y Ddeddf Amddiffyn Plant 1978, Adran 160 y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988). Nid yw'r drosedd hon yn berthnasol pan fo'r partïon yn briod neu yn byw gyda'i gilydd, pan roddwyd caniatâd ac nid oes neb arall i'w weld yn y llun.

- Deddf Troseddau Rhywiol 2003, Adran 15: Cwrdd â phlentyn ar ôl eu paratoi i bwrpas rhyw; 9. Gweithgaredd rhywiol gyda phlentyn, 10. Achosi neu gymell plentyn i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol, 11. Cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol ym mhresenoldeb plentyn, 12. Achosi plentyn i wylio gweithred rywiol, 14. Trefnu neu hwyluso cyflawni trosedd rhywiol yn erbyn plentyn, 15. Cwrdd â phlentyn yn dilyn ar ôl eu paratoi i bwrpas rhyw ac ati, 15A. Cyfathrebu'n rhywiol â phlentyn

- Deddf Troseddau Rhywiol 2003, Adran 48: Achosi neu annog puteindra neu bornograffi plant; aralleirio camfanteisio'n rhywiol ar blant. 47. Talu am wasanaethau rhywiol plentyn, 48. Achosi neu gymell camfanteisio'n rhywiol ar blentyn 49. Rheoli plentyn yn gysylltiedig â chamfanteisio'n rhywiol 50. Trefnu neu hwyluso camfanteisio'n rhywiol ar blentyn 51. Adrannau 48 i 50: dehongliad

- Deddf Troseddau Rhywiol 2003, Adran 49: Rheoli plentyn sy'n puteinio neu blentyn sy'n ymwneud â phornograffi;

- Deddf Troseddau Rhywiol 2003, Adran 50: Trefnu neu hwyluso puteindra neu bornograffi plant.

Deunydd Cam-drin Plant yn Rhywiol

Diffinnir Deunydd Cam-drin Plant yn Rhywiol yn sylfaenol fel delweddau neu fideos sy'n dangos unigolyn sy'n blentyn ac yn cymryd rhan mewn, neu'n ymddangos fel eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol. Defnyddir y term 'cam-drin plant yn rhywiol' i adlewyrchu difrifoldeb y delweddau. Gellir ystyried y deunydd yn "ddeunydd cam-drin plant" pan fo'n dangos:

Plentyn ym mhresenoldeb unigolyn arall sy'n cymryd rhan mewn ystum rhywiol neu weithgaredd rhywiol, neu rannau preifat plentyn.

Er bod llawer o bobl yn ystyried bod "deunydd cam-drin plant" yn fideos neu ddeunydd sain-weledol, gall hefyd gyfeirio at ffotograffau, lluniau wedi'u gwneud â llaw, animeiddiadau, darluniau neu hyd yn oed deunydd sydd wedi cael ei addasu i wneud i berson edrych fel plentyn.

Ym mhrofiad HGC, nid yw person â chasgliad mawr o ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol o reidrwydd yn troi at droseddu drwy gyffwrdd.

Categori A Delweddau yn dangos gweithgaredd rhywiol treiddiol (penetrative), gweithgaredd rhywiol gydag anifail neu sadistiaeth.
Categori B Delweddau yn dangos gweithgaredd rhywiol nad yw'n dreiddiol.
Categori C Delweddau anweddus eraill nad ydynt yn dod o fewn categori A neu B:

- Delweddau gwaharddedig o blant
- Mynegol
- Pornograffi Eithafol (Oedolion yn unig. Bydd unrhyw ddelwedd o'r math yma yn cynnwys plentyn yn ddelwedd Categori A)

2.0 Canllawiau i Wasanaethau Plant a Theuluoedd Pan Amheuir bod Deunydd Cam-drin Plant yn Rhywiol

2.1 Dylid darllen y canllawiau ar y cyd â Gweithdrefnau Amddiffyn Cymru Gyfan.

2.2 Bydd pob achos yn cael ei asesu ar ei rinweddau ei hun a bydd yn unigryw, ond bydd angen man cychwyn. Isod ceir canllawiau i'w hystyried mewn ymgynghoriad gyda'ch rheolwr atebol mewn perthynas â'r achos yr ydych yn gweithio arno.

2.3 Mae yna ragdybiaeth y bydd pob atgyfeiriad at wasanaethau plant mewn perthynas ag asesu Plant sydd yn byw ar aelwyd (neu mewn cysylltiad) gydag oedolyn, sydd wedi bod yn edrych ar ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol, yn sbarduno **Ymholiad Adran 47**.

(D.S. Noder: pan fo dyfeisiau digidol neu offer arall wedi ei gymryd gan yr Heddlu, gall gymryd misoedd i ddadansoddi hynny, ac ni fydd y canlyniadau yn hysbys o fewn y 42 Diwrnod Gwaith ar gyfer Asesiad Cynhwysfawr). CLG presennol HGC - risg uchel - 4 wythnos, risg ganolig - 8 wythnos, risg isel - 12 wythnos

2.4 Y Broses Atgyfeirio - Yn y rhan fwyaf o'r achosion bydd atgyfeiriad yn cael ei wneud i Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â phlant y mae eu rhiant / oedolyn ar yr aelwyd yn destun ymchwiliad am edrych/meddu ar ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol. Bydd Heddlu Gogledd Cymru yn hysbysu asiantaethau partner pan fo ymchwiliad yn cael ei gynnal. Os bydd plant yn bresennol yn y cyfeiriad, bydd atgyfeiriad yn cael ei wneud i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, gan roi manylion yr ymchwiliad.

2.5 Drwy gydol y gwaith a wneir yn y maes yma, mae'n hanfodol bod yr holl asiantaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth ac yn rhannu gwybodaeth.

3.0 Ymholiad Adran 47 (Deddf Plant 1989)

3.1 Ar ôl dechrau Ymholiad Adran 47, mae'r Cyfarfod Strategaeth yn allweddol ar gyfer cynllunio'r asesiad. Bydd angen i'r Cyfarfod Strategaeth ystyried:

- Pob plentyn ar yr aelwyd;
- Plant yn y teulu estynedig a rhwydweithiau cymdeithasol y mae gan y cyflawnwr honedig gysylltiad â nhw;
- Unrhyw gysylltiad sydd gan y cyflawnwr â phlant a phobl ifanc yn eu gwaith neu weithgareddau gwirfoddol (yn yr achos hwnnw, dylid atgyfeirio at y Cydlynydd AP);
- Diogelwch y Plant yn y delweddau a ganfuwyd.

Mae'n bwysig bod hwn yn gyfarfod wyneb yn wyneb, nid sgwrs dros y ffôn, a bod asiantaethau eraill yn ogystal â'r heddlu a gwasanaethau plant yn cael mewnbwn.

3.2 Dylai'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu ymchwilio i bob ymholiad ar y cyd pan fo hynny'n bosibl. Yn y cyfarfod strategaeth dylai'r **holl weithwyr proffesiynol perthnasol** fod yn bresennol.

3.3 Fel arfer bydd ymchwiliad yr heddlu yn un hir (e.e. oherwydd yr amser sydd ei angen i archwilio pob dyfais ddigidol, mynediad i'r cwmwl) ac efallai na fydd yn arwain at erlyniad yn y diwedd.

3.4 Efallai y bydd rhai ffactorau allweddol yn pennu'r risg o **Niwed Sylweddol** yn gynnar yn y broses:

- Hanes blaenorol (yn hysbys i Wasanaethau Plant am gamdriniaeth neu esgeulustod);
- Cam-drin drwy gyffwrdd blaenorol o Blant eraill
- Delweddau o'i Blentyn ei hun;
- Mae'r asesiad o allu'r partner i amddiffyn yn dangos bod llesiant neu les y Plant yn debygol o gael ei gyfaddawdu'n sylweddol;
- Diffyg cydweithrediad;
- Deall pryderon y gall ei blentyn ei hun fod yn wynebu risg;
- Presenoldeb ffactorau risg sydd yn gysylltiedig â chamdriniaeth neu esgeulustod;
- Ffordd o fyw troseddol hysbys;
- Mae troseddwyr di-gyffwrdd yn fwy tebygol o gyflawni trosedd drwy gyffwrdd.

3.5 Os bydd unrhyw un o'r ffactorau risg yma yn bresennol, mae'n rhaid i'r cyfarfod ystyried a ddylid gofyn i'r troseddwr honedig adael y cartref yn ystod yr asesiad, neu os nad, sut fydd y risgiau yn cael eu rheoli. Ar achlysur, bydd gan y sawl sy'n cyflawni trosedd amodau mechnïaeth a fydd yn gosod cyfyngiadau ar lle y gall fyw a chyswllt gyda phlant.

3.6 Efallai bod y bobl sydd yn edrych ar y delweddau yma yn gwneud hynny oherwydd bod ganddynt ddiddordeb rhywiol mewn plant. Maent eisoes wedi gweithredu ar y diddordeb rhywiol hwnnw drwy edrych ar blant yn cael eu cam-drin. Bydd rhai yn symud ymlaen i gam-drin drwy gyffwrdd, a bydd eraill ddim yn gwneud hynny, ond bydd angen asesu pob sefyllfa'n ofalus. Mae angen sefydlu camau diogelu ar ddechrau eich gwaith nes eich bod yn gallu penderfynu bod y plant yn ddiogel - nid y ffordd arall.

3.7 Yr arfer orau yw dechrau'r Asesiad Gofal a Chymorth / Ymholiad A.47 ar y diwrnod yr atygfeirir at Ofal Cymdeithasol Plant.

3.8 Pan fo sefyllfa yn ymwneud â phlant a phartner, dylid sicrhau mai diogelwch uniongyrchol y plant yw'r flaenoriaeth. Dylid gwneud ymholiadau ar unwaith i sicrhau eu diogelwch. Mae hefyd yn bwysig ystyried os yw'r plant wedi gweld unrhyw faint o'r cynnwys amhriodol ar-lein.

3.9 Mae'n debygol y bydd y cyflawnwr honedig yn cael ei gyfweld ar unwaith, dan rybudd, gan yr Heddlu. Mae hefyd yn rhan o'r drefn i'r Heddlu gymryd yr holl ddyfeisiau trydanol. Dylid darparu crynodeb o'r cyfweliad i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd hyn wedyn yn caniatáu i'r Gwasanaethau Cymdeithasol gynnal 'Asesiad Gofalwr Diogel' ar unwaith ar y partner nad yw wedi troseddu.

3.10 Pan fo'r cyflawnwr honedig yn byw gyda phlentyn neu blant, neu fod ganddo gyswllt rheolaidd â phlentyn neu blant dylid cynnal Cynhadledd Amddiffyn Plant - oni bai bod ffactorau arwyddocaol yn cael eu nodi yn erbyn cymryd y camau hynny.

3.11 Bydd angen cynnal asesiad mwy trwyadl yn dilyn hynny, a bydd hynny yn cymryd amser. Ni ddylai'r achosion yma ddisgwyl am ganlyniad ymchwiliad yr heddlu cyn cymryd camau diogelu cadarn.

3.12 Yn ystod y cyfnod hwn, dylid hefyd ystyried ymgymryd ag ymagwedd ragweithiol wrth ymdrin â'r cyflawnwr honedig a allai gynnwys ystyried Gorchmynion Sifil er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc.

4.0. Canlyniad Ymchwiliad A.47

4.1 Bydd Ymchwiliad Adran 47 (Ymholiad Amddiffyn Plant) yn arwain at un o bedwar canlyniad posibl:

- Mae pryderon am Amddiffyn Plant yn cael eu cadarnhau ac ystyrir bod y plentyn/plant yn wynebu risg barhaus o **Niwed Sylweddol**.
- Mae pryderon am Amddiffyn Plant yn cael eu cadarnhau ond ni ystyrir bod y plant yn wynebu risg barhaus o Niwed Sylweddol.
- Nid yw'r pryderon ynghylch Amddiffyn Plant yn cael eu cadarnhau ond mae ymholiadau wedi datgelu bod y plant **yn Angen Gofal a Chymorth**, a bod angen gwasanaethau ar gyfer hynny.
- Nid yw'r pryderon ynghylch Amddiffyn Plant yn cael eu cadarnhau ac mae ymholiadau wedi datgelu nad oes angen Gofal a Chymorth.

4.2 Mewn achosion pan fo pryderon am ddiogelwch plant yn cael eu cadarnhau a bod y plant yn wynebu risg barhaus, bydd angen i'r gweithiwr cymdeithasol drefnu cynhadledd achos cychwynnol. Bydd y Gweithiwr Cymdeithasol yn cwblhau adroddiad y gynhadledd achos gychwynnol. Hefyd, bydd angen i asiantaethau partner gwblhau adroddiadau ar gyfer y gynhadledd.

4.3 Mewn achosion pan fo pryderon am amddiffyn plant yn cael eu cadarnhau, ond mai penderfyniad y gynhadledd yw na ystyrir bod y Plentyn yn wynebu risg o niwed sylweddol ac y bydd cymorth yn cael ei ddarparu drwy gynllunio Gofal a Chymorth (dyma pan fo'r cyflawnwr yn treulio dedfryd dan glo), mae'n rhaid gwneud trefniadau i gwblhau'r broses gynllunio ac asesu er mwyn sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud ar gyfer yr

adeg pan fo'r cyflawnwr yn cael ei ryddhau. Efallai yn wir y bydd angen cyflwyno'r achos yn ôl i'r gynhadledd cyn bod y cyflawnwr yn cael ei ryddhau.

5.0 Ymweliad Datgeliad

5.1 Un o benderfyniadau'r cyfarfod canlyniadau strategaeth yw bod ymweliad datgeliad yn cael ei gynnal gan y Gweithwyr Cymdeithasol mewn perthynas â'r drosedd / troseddau hanesyddol / gwybodaeth a gyflwynir gan neu a gyflawnwyd gan un o'r oedolion ar yr aelwyd. Mewn rhai achosion mae'n bwysig i aelodau perthnasol eraill y teulu i fod yn bresennol (e.e. neiniau a theidiau) fel rhan o'r gwaith asesu yn y dyfodol fydd yn cynnwys aelodau'r teulu all ddarparu cymorth er mwyn amddiffyn Plant. Bydd y cyfarfod strategaeth yn cytuno ar bwy a beth fydd yn cael ei ddatgelu a gan bwy h.y. yr heddlu/gwasanaethau cymdeithasol neu ar y cyd.

5.2 Yn ogystal â diogelu'r plant, mae Heddlu Gogledd Cymru hefyd yn ystyried diogelwch y troseddwr. Bydd Partneriaid, Teulu a ffrindiau yn derbyn datgeliad petai'r troseddwr yn cael ei ryddhau o'r carchar i gael eu goruchwylio ganddyn nhw, tra bod yr achos yn parhau. Mae'r datgeliad yn cael ei wneud er mwyn cynnig cymorth, ac er mwyn sicrhau bod yr unigolion yn ymwybodol o'r risg ynghylch hunanladdiad posibl ar ôl rhyddhau o garchar ar y cychwyn. Mae Gweithdrefnau Gweithredu Sylfaenol y Tîm Ymchwilio i Gam-drin Plant Ar-lein Lles yr Unigolion a Ddrwgdybir yn weithredol o fewn HGC, ond ni awdurdodir eu rhannu.

6.0 Asesiad Gofal a Chymorth

6.1 Ochr yn ochr â'r ddogfen Asesiad Gofal a Chymorth, y bydd angen ei chwblhau o fewn amserlenni statudol, bydd angen i'r grŵp craidd gytuno ar amserlenni ar gyfer **Asesu Gofalwyr Amddiffyn Posibl**.

O dan rai amgylchiadau bydd yn bosibl lleihau'r risgiau ac aduno'r teulu ar ôl Asesiad Risg neu Gynhadledd Amddiffyn Plant gychwynnol (gyda Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth). Dylai unrhyw gytundeb a sefydlir megis cyswllt dan oruchwyliaeth, mynediad i ystafelloedd plant ac ati, gael ei gynnwys yn y Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth a'i lofnodi gan y partïon perthnasol.

6.2 Mae'n ddisgwyliedig y bydd yr holl Fodelau Asesu Risg Awdurdod Lleol y cytunwyd arnynt wedi'u cwblhau erbyn y gynhadledd adolygu gyntaf (3 mis): Hefyd, dylai unrhyw asesiadau arbenigol gael eu nodi gan y gynhadledd adolygu gyntaf.

6.3 Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn cael y wybodaeth ganlynol cyn gynted â phosibl gan yr heddlu a thrwy eu hymholiadau eu hunain.

- Unrhyw wybodaeth am natur y delweddau (A-C), oedran neu rywedd y plant?
- Beth sy'n hysbys am ffynhonnell y delweddau - safle masnachol, delweddau cartref, byrddau newyddion neu ystafelloedd sgwrsio? A oes tystiolaeth o fasnachu?
- Pa ddeunydd ychwanegol a ddarganfuwyd yn yr eiddo pan aethpwyd â gyriant caled y cyfrifiadur i ffwrdd? E.e. disgiau, fideos, delweddau wedi eu hargraffu, deunydd ysgrifenedig? A oeddent wedi eu cuddio?
- Pa dechnoleg arall oedd yn bresennol yn y cartref e.e. gwe-gamera, camera digidol, camera fideo, X-Box?
- Os nad oes plant yn byw yn y cartref, a oes yna deganau neu wrthrychau ar gyfer

plant?

- A oes unrhyw arwydd bod plant wedi bod yn bresennol tra edrychwyd ar y deunydd, neu fod y deunydd yn cynnwys plant neu oedolion oedd yn gyfarwydd i'r cyflawnwr honedig?
- A oes tystiolaeth o ddefnydd alcohol trwm neu gyffuriau anataliol e.e. canabis?
- A oedd pornograffi oedolion yn bresennol yn ogystal â delweddau o gam-drin plant?
  (Gall pornograffi oedolion fod yn gyfreithlon neu beidio, ond mae'n debygol o fod yn berthnasol i'r asesiad);
- Sut mae'r cyflawnwr honedig yn cyflwyno ein hun ar y cychwyn? (Os yn bosibl, archwiliwch y cefndir hanesyddol e.e. cyn bartneriaid a phlant, digwyddiadau bywyd arwyddocaol);
- A oes yna unrhyw gysylltiad proffesiynol perthnasol blaenorol?
- A oes yna unrhyw dystiolaeth o ymddygiad obsesiynol/cymhellol yn y cyflawnwr honedig?
- A oes yna hanes o gam-drin domestig
- Ym mha ffordd mae'r partner nad yw'n cam-drin yn ymateb i'r sefyllfa ar y cychwyn
- Ym mha ffordd mae'r plant ar yr aelwyd yn cyflwyno eu hunain ac yn ymateb i'r sefyllfa
- Pwy yw'r grŵp ehangach o bobl arwyddocaol ym mywydau'r plant
- A oes yna unrhyw ddangosyddion cychwynnol o gamdriniaeth neu esgeulustod
- A oes yna unrhyw hanes o droseddu blaenorol
- A oes gan asiantaethau eraill unrhyw bryderon
- Beth yw'r ffactorau diogelu yn y sefyllfa
- Beth yw nodweddion yr arferion teuluol dyddiol, yn arbennig mewn perthynas â gofal personol ac arferion amser gwely
- Pa gymorth cymdeithasol a chymunedol sydd ar gael i'r teulu? A ydynt wedi eu hynysu yn gymdeithasol
- Pa gyswllt sydd gan y cyflawnwr honedig â phlant a phobl ifanc y tu hwnt i'r teulu agos? Ystyriwch y cyswllt gyda'r teulu estynedig a'r gymuned leol
- A yw'r cyflawnwr honedig yn gweithio mewn swydd sydd yn gysylltiedig â phlant (yn cynnwys gwaith gwirfoddol)? Os ydyw, cyfeiriwch at Gydlynydd AP.

6.4 Bydd yr Asesiad Gofal a Chymorth yn casglu gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau.

6.5 Dylai'r adran **Canllawiau ar gyfer Asesu Gofalwyr Amddiffyn Posibl**, yr adran **Cyfweliad â phlant sydd mewn cysylltiad â chyflawnwr honedig** a'r adran **Cyfweliad â'r cyflawnwr honedig a'r partner** ddarparu modelau defnyddiol ar gyfer casglu gwybodaeth gan aelodau o'r teulu. Ni fydd y cyfweliadau yma o reidrwydd yn cael eu cynnal mewn trefn benodol, ac mae'n debygol y bydd angen nifer o sesiynau er mwyn cynnwys yr holl gwestiynau a'r meysydd perthnasol ar gyfer unrhyw achos penodol.

6.6 Ar ôl casglu'r wybodaeth o'r gwahanol ffynonellau, gwiriwch y deunydd sydd ar gael yn erbyn y dangosyddion yn Atodiad 1. Mae'r rhain yn darparu set gynhwysfawr o ddangosyddion sydd yn helpu i benderfynu:

- A yw partner/gofalwr nad yw'n cam-drin yn llai abl neu'n fwy abl i amddiffyn;
- A yw perthynas cwpl yn debygol o gynyddu neu o leihau'r risg;
- A yw'r dulliau rhianta yn cynyddu neu'n lleihau'r risg;
- A yw amgylchiadau'r plentyn neu blant yn cynyddu neu'n lleihau eu bregusrwydd.

6.7 Bydd treigl amser a'r broses asesu ei hun yn effeithio ar ymateb y rhiant. Rhan bwysig o'r broses asesu yw asesiad o'r gallu i newid.

7.0 Asesiad Arbenigol

7.1 Ar ddiwedd yr Asesiad Gofal a Chymorth gellir gwneud / gwneir argymhelliad bod asesiad arbenigol / asesiad risg pellach yn cael ei gynnal. Dylid cynnal trafodaeth yn y grŵp craidd ynglŷn â'r gweithiwr proffesiynol arweiniol yn cynnal yr asesiad arbenigol.

7.2 Mewn achosion penodol y gweithiwr proffesiynol arweiniol fydd y Swyddog Prawf neu'r Gweithwyr Cymdeithasol. Mae'n rhaid pennu amserlen glir ar gyfer cwblhau'r asesiad arbenigol, ac mae'n rhaid ei gwblhau cyn gynted â phosibl.

7.3 Mewn achosion pan mai'r Gweithiwr Cymdeithasol / Swyddog Prawf yw'r gweithiwr proffesiynol arweiniol ar gyfer cwblhau asesiad arbenigol / asesiad risg, gallent ofyn am gymorth gan asiantaethau partner os nad ydynt yn ymwneud â'r achos ond eu bod yn gallu cynnig arweiniad.

7.4 Mae yna dri cham i'r **broses Asesu Arbenigol** sydd yn gorgyffwrdd:

(a) Casglu gwybodaeth - defnyddio'r **Fframwaith Asesu** a'r dulliau eraill a ddarperir yn y canllawiau hyn;

(b) Dadansoddi gwybodaeth - gan ystyried:

- **Difrifoldeb y niwed hysbys neu a gredir. Mae difrifoldeb** yn cyfeirio at fath a maint y niwed sydd wedi neu'n sy'n debygol o gael ei ddioddef, ac effaith hynny ar y plentyn. Mae'n ystyried patrwm y niwed yn y gorffennol (fel sy'n berthnasol) o ran rhagamcanu difrifoldeb unrhyw niwed a gredir allai ddigwydd yn y dyfodol;
- **Pa mor fregus yw'r plentyn i gael ei niweidio. Mae bregusrwydd** yn cyfeirio at ffactorau mewn perthynas ag oedran ac agweddau o ddatblygiad y plentyn neu'r person ifanc, yn ogystal â'r cyfle i ddod i fwy o gysylltiad â niwed neu amddiffyn, a gallu'r rhieni i newid;
- **Tebygolrwydd y bydd niwed hysbys neu a gredir yn cael ei ailadrodd, yn parhau neu'n cronni. Mae tebygolrwydd** yn cyfeirio at y ffactorau hynny sydd yn cynyddu'r posibilrwydd o niwed, megis patrymau o gam-drin neu esgeulustod tuag at y plentyn a phlant eraill yn y teulu, ymlyniad ac ansawdd perthnasau, agweddau'r rhieni tuag at niwed a ffactorau sy'n cymhlethu;
- **Lefel diogelwch ar gyfer y plentyn. Mae diogelwch** yn cyfeirio at allu rhiant, aelodau eraill y teulu neu oedolion arwyddocaol i amddiffyn a gofalu, gallu'r plentyn ei hun i gael ei amddiffyn (yn dibynnu ar eu hoedran a'u datblygiad) ac arwahanrwydd y teulu oddi wrth gymorth. Mae cryfderau yn rhinweddau cadarnhaol mewn perthnasau, sgiliau a phersonoliaeth. Mae'r rhinweddau yma yn

cael eu hystyried wrth iddynt weithredu i gefnogi, gwella a datblygu capasiti, cymhelliant neu gymhwysedd i amddiffyn.

(c) **Barnu risg** - er mwyn barnu lefel risg ac a ddylai'r awdurdod lleol ymyrryd, a sut mae diogelu a hyrwyddo lles y plentyn yn syth ac yn yr hirdymor, mae angen i'r broses asesu risg benderfynu:

Beth yw'r canlyniadau o ran niwed i'r plentyn neu'r person ifanc? A yw'r canlyniadau niwed yn eithafol, difrifol neu'n achos pryder? A beth yw'r ffactorau sydd yn cynyddu neu'n lleihau'r tebygolrwydd o niwed? A yw'r tebygolrwydd o niwed yn debygol iawn, yn debygol neu'n annhebygol?

7.5 Bydd angen i gasgliad y farn nodi beth fydd effaith debygol yr ymyriadau arfaethedig ar y plentyn, ei deulu a phobl arwyddocaol eraill yn cynnwys achosion gofal posibl.

8.0 Canllawiau Arferion Da

8.1 Mae'r adrannau canlynol yn ganllawiau arferion da mewn perthynas â'r canlynol:

- Canllawiau ar gyfer Asesu Gofalwyr Amddiffyn Posibl;
- Cyfweliad â Phlant sydd mewn cysylltiad â Chyflawnwr Honedig;
- Cyfweliad â'r Cyflawnwr Honedig a'r Partner;
- Goblygiadau i Ymarferwyr.
- Canolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiolhttps://www.csacentre.org.uk/

9.0 Canllawiau ar gyfer Asesu Gofalwyr Amddiffyn Posibl

9.1 Nid yw'r canllawiau hyn yn disodli'r Fframwaith Asesu. Mae'n cynnwys gwybodaeth ychwanegol, sydd yn deillio o'r profiad a'r ddysg gan ymarferwyr sydd yn delio â cham-drin ar y Rhyngrwyd.

9.2 I lawer o bartneriaid, bydd darganfod bod eich partner wedi bod yn cael mynediad at ddelweddau o gam-drin plant ar y Rhyngrwyd, yn sioc erchyll. Ymateb naturiol i sioc seicolegol yw gwadu difrifoldeb yr ymddygiad, i leihau cyfrifoldeb neu hyd yn oed beidio â chredu ei fod wedi digwydd o gwbl. Mae gwadu yn fecanwaith amddiffynnol sydd yn gwarchod rhywun rhag ofn llethol neu drawma. Mae ymatebion fel "dim ond edrych ar bethau mae o", "mae'n rhaid ei fod wedi dod ar draws y llun drwy ddamwain" neu "ni fyddai'n gwneud unrhyw beth i'w blant ei hun" yn ymatebion naturiol i sefyllfa erchyll iawn. Gall y trallod hwnnw gael ei waethygu gan brofiad y partner o'i phartner yn cael ei arestio - ar brydiau yn dilyn cyrch am oriau mân y bore gan yr heddlu ac ofn y canlyniadau; "a fyddaf yn colli fy mhlant?"

9.3 Gall y partner fynd drwy broses sydd yn debyg iawn i alar, gan fynd dry'r camau cyfarwydd o ddiffyg teimlad, gwadu, dicter ac iselder.

9.4 Mae'n bwysig cofio y gall ymateb cychwynnol pobl fod yn rhagamcan gwael o'u gallu hirdymor i amddiffyn.

9.5 Gall y dicter a'r dryswch y mae partneriaid yn ei brofi gael ei drosglwyddo i'r gweithwyr amddiffyn plant, ac oni bai fod camau cyntaf y cyswllt gyda phartneriaid yn cael eu trin yn ofalus, gallai hynny arwain at berthynas elyniaethus a gwrthweithiol rhwng y partner a

gwasanaethau diogelu statudol. Gall datrys hynny fod yn anodd iawn ar ôl i hynny ddigwydd a gall effeithio'n ddifrifol ar y gobeithion o gyflawni canlyniadau da i'r plant.

9.6 Math o ymyrraeth:

- Cychwyn gyda ble mae hi/ef, nid ble yr hoffech iddynt fod;
- Byddwch yn onest ac agored gydag ef/hi;
- Cydnabyddwch nad yw hi/ef efallai yn ddrwg i gyd. Roeddent yn ei garu, ac efallai eu bod yn dal yn ei garu. Os bydd pobl yn eu disgrifio fel 'bwystfil' neu rywbeth tebyg, beth mae hynny yn ei ddweud amdanyn nhw?
- Derbyniwch y bydd angen iddo ef/hi efallai gynnal rhyw lefel o wadu a lleihau, er mwyn galluogi iddo ef/hi barhau â'r berthynas, ac nid hynny o reidrwydd yn golygu ei fod/bod ef/hi yn llai amddiffynnol;
- Rhowch wybod y bydd gweithio mewn partneriaeth yn debygol o arwain at fuddion sylweddol a sicrhewch fod y plant wedi eu hamddiffyn rhag niwed. Gadewch iddo/iddi wybod bod gennych wybodaeth a dealltwriaeth y gallwn eu rhannu all helpu'r teulu mewn sefyllfa anodd iawn;
- Parhewch i ganolbwyntio ar y mater o ddiogelu'r plant yn y teulu a pheidiwch â gadael i'ch agenda eich hun ymyrryd â hynny. Gall y syniad bod rhywun yn edrych ar ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol fod yn ffiaidd i chi, ac efallai y bydd yn codi pwys arnoch.

9.7 Dylai'r cyfweliad cyntaf ganolbwyntio ar ddatblygu perthynas gyda'r gofalwr a chydnabod canlyniadau emosiynol ac ymarferol arestio eu partner.

9.8 Gellir darparu gwybodaeth am y broses fydd yn debygol o fynd rhagddi. Gall pobl mewn trallod ond derbyn swm cyfyngedig o wybodaeth, a gall eu cyfnod o dalu sylw fod yn fyr. Peidiwch fyth â diystyru'r sioc anferthol sydd yn llethu nifer o bartneriaid ar y cychwyn.

9.9 Os bydd y teulu yn sefydlog heb unrhyw hanes fforensig arwyddocaol, mae'n annhebygol y bydd y plant yn wynebu risg uniongyrchol o gael niwed sylweddol. Byddai ffactorau a fyddai'n peri pryder yn cynnwys:

- Mae gan y troseddwr euogfarn rhywiol blaenorol neu honiadau credadwy yn ei erbyn o ymosodiad rhywiol;
- Camddefnyddio sylweddau sylweddol cyfredol (sydd yn arwain at euogfarnau troseddol, ymyraethau meddygol neu bryderon am blant yr effeithir arnynt gan gamddefnyddio sylweddau);
- Mae gan y troseddwr euogfarnau am drais anrhywiol, byrgleriaeth ddomestig neu mae'n arddangos hyblygrwydd troseddol sylweddol;
- Hanes o gam-drin domestig;
- Y teulu (cyfredol neu flaenorol) yn hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol. - yn benodol hanes mewn perthynas ag esgeuluso neu gam-drin plant ar yr aelwyd neu mewn teuluoedd blaenorol.
- Troseddwr yn byw ar yr aelwyd ond nid yw'n dad i'r plant nac yn bartner i'r fam;
- Cariad diweddar;
- Mae gan y fam/gofalwr hanes o gyfres o bartneriaid/perthnasau ansefydlog;

- Mae gan y fam/gofalwr hanes o gam-drin rhywiol, rhianta gwael neu hanes o fod mewn gofal;
- Mae gan y gofalwr broblemau iechyd meddwl;
- Mae gan y gofalwr anabledd dysgu;
- Plant sydd ag anabledd corfforol, anabledd dysgu, oedi datblygiadol neu broblemau cyfathrebu.

9.10 Mewn cyfweliadau dilynol gellir datblygu darlun mwy manwl:

9.11 Cael hanes cefndir mwy manwl

- Sut y gwnaethant gyfarfod;
- Ffrindiau/teulu/diddordebau;
- Materion ethnig, diwylliannol a chrefyddol;
- Profiad o blentyndod eu hunain, yn arbennig unrhyw hanes o gam-drin rhywiol a phroblemau ymlyniad;
- Materion ariannol a phwy sy'n rheoli hynny;
- Pŵer yn y berthynas;
- Perthnasau y tu allan i'r teulu;
- Cyflogaeth ac oriau gwaith;
- Amser a dreulir ar y cyfrifiadur a gwybodaeth dechnegol am systemau cyfrifiadurol;
  Unrhyw dystiolaeth o ymddygiad meithrin perthynas amhriodol. Mae angen trin hyn gyda gofal. Yn y gorffennol, roedd unrhyw beth yr oedd troseddwr yn ei wneud gyda darpar ddioddefwr oedd yn feithrin yn cael i ddehongli fel "meithrin perthynas amhriodol". Mae'r rhan fwyaf o gam-drin rhywiol yn digwydd yng nghyd-destun perthnasau sefydledig sydd wedi eu meithrin, ac mae'n bwysig peidio â gor-ddehongli ymddygiad a phriodoli cymhellion sinistr i'r hyn allai fod yn rhyngweithio normal a diniwed rhwng gofalwr a phlentyn;
- A yw ef neu hi wedi colli diddordeb yn eu bywyd rhywiol neu wedi tynnu ei hun allan o berthnasau cymdeithasol?

9.12 Natur eu perthnasau rhywiol, ni fydd "normal" neu "oce" yn ddigon oherwydd efallai na fydd yr hyn sydd yn normal iddyn nhw yn cael ei ystyried fel ymarfer diogel mewn tŷ gyda phlant ynddo e.e. cyfnewid partneriaid, pornograffi hygyrch a diffyg ffiniau priodol. Felly, gall gwybodaeth am natur diddordebau rhywiol a phrofiadau o ran rhywedd, oedran, amledd, ymarferion anarferol sydd yn neu'n bosibl eu bod yn niweidiol neu'n sarhaus (e.e. rhyw sadomasocistaidd, cynnwys anifeiliaid) helpu i sefydlu gwybodaeth berthnasol.

9.13 Rhinweddau allweddol rhiantu amddiffynnol "digon da":

- Deall a derbyn beth mae eu partner wedi ei wneud, bod hynny yn annerbyniol a bod hynny yn codi pryderon dilys ar ran asiantaethau ynghylch diogelwch y plant, hyd yn oed os nad ydynt yn credu na fyddai eu partner yn eu niweidio;
- Meddu ar hunanwerth da;
- Meddu ar ffocws rheolaeth fewnol - yn credu y gall ef/hi siapio digwyddiadau;
- Gall ddarparu ymlyniad priodol. Mae'n emosiynol gynnes, ar gael ac yn gallu deall byd mewnol y plentyn a blaenoriaethu anghenion y plant cyn eu hanghenion eu hunain;
- Mae ganddynt gymorth cymdeithasol da a chyfaill mynwesol y tu allan i'r teulu agos. Mae ganddynt gysylltiad da gyda ffrindiau ac aelodau'r teulu sy'n gwybod beth sydd

wedi digwydd ac yn gallu cynnig cymorth;

- Nid yw'n ddibynnol yn ariannol nac yn emosiynol ar eu partner, a gall feddwl am fywyd ar wahân iddo;
- Yn cydweithio ag asiantaethau amddiffyn plant ac yn gallu gweithio drwy deimladau negyddol sydd yn deillio o'u hymyrraeth yn eu bywydau, ac nid yw'n barhaol wrthwynebus tuag at asiantaethau.

10.0 Cyfweliad â Phlant sydd mewn cysylltiad â Chyflawnwr Honedig

10.1 Ystyriwch pryd ac a ddylai plant gael eu cyfweld,- dylid cytuno ar hynny yn y cyfarfod strategaeth a chyfarfodydd cynllunio dilynol. https://www.csacentre.org.uk

10.2 Ystyriwch beth fydd yn cael ei ddweud wrth y plant a phwy fydd yn gwneud hynny.

- Dylid rhoi gwybodaeth i blant mewn ffordd sydd yn briodol i'w hoedran, mewn cytundeb â'r gofalwr amddiffyn, am beth sy'n digwydd ac am rôl y gweithiwr cymdeithasol;

- Gall fod yna demtasiwn i osgoi trafod unrhyw beth gyda'r plentyn oherwydd bod hynny'n ymddangos yn anodd. Ni fydd hynny yn help yn yr hirdymor. Dylid dweud rhywbeth wrth blant, ond nid popeth, a thrwy roi gwybodaeth a fesurir i blant byddwn yn creu y cyfle i ddatgelu am ddigwyddiadau yn y dyfodol a/neu yn y dyfodol. Drwy beidio â dweud dim mae'n beryg ein bod yn gadael i blant deimlo na allant siarad a bod rhaid iddynt aros yn dawel. Gall hynny hefyd achosi iddynt deimlo dryswch/gorbryder bod rhywbeth yn mynd ymlaen... "Rwyf yn meddwl fy mod yn wynebu risg o rywbeth, ond nid oes unrhyw yn dweud wrtha' i! "A yw dad wedi gwneud rhywbeth drwg?" "A ydw i wedi gwneud rhywbeth drwg?"

- Mae'n rhad i ni fod yn ofalus nad ydym yn adlewyrchu ymddygiad cyfrinachol a thwyllodrus posib yr oedolion yn y sefyllfaoedd yma. Gallai arddel yr agwedd "cadwn bethau'n dawel" olygu bod teuluoedd yn parhau â'u cod o gyfrinachedd. Gall hefyd olygu bod gweithwyr proffesiynol dan bwysau i wirio popeth gyda'r rhieni cyn siarad â'r plant;

- Efallai y bydd rhaid i hynny gynnwys y rhesymau pam fod y cyflawnwr yn gadael y cartref am gyfnod;

- Os oes cytundeb ysgrifenedig wedi ei sefydlu, ystyriwch a oes angen hysbysu'r plentyn a rhoi gwybodaeth iddo ynghylch beth i'w wneud os bydd y cytundeb yn cael ei dorri;

- Efallai eu bod wedi bod yn bresennol yn ystod chwiliad yr heddlu yn gynnar yn y bore ac yn orbryderus iawn am hynny;

- Efallai eu bod yn gwybod am "luniau anweddus" ar y Rhyngrwyd - hyd yn oed yn ifanc iawn. Gall hyn fod yn rhan o'r defnydd cyffredin presennol o'r Rhyngrwyd gan blant, heb fod hynny'n gysylltiedig â'r oedolyn yn edrych ar ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol;

- Mae deunyddiau generig priodol ar gael er mwyn helpu plant i fynegi eu dymuniadau a'u teimladau; beth sydd yn digwydd yn eu bywydau; a oes unrhyw beth yn eu poeni; asesu eu gwybodaeth am gyffwrdd diogel ac anniogel; asesu arwyddion o feithrin perthynas amhriodol neu niwed arwyddocaol;

- Dylai babanod a phlant ifanc iawn gael eu harsylwi gyda'r gofalwr amddiffyn posibl - a gyda'r cyflawnwr honedig os bydd cyswllt yn parhau;

- Dylid cynnig amser i blant hŷn a phobl ifanc ar eu pennau eu hunain gyda'r ymarferwyr;
- Yn ddibynnol ar oed y plentyn, dylid canolbwyntio ar gynllunio diogelwch.

11.0 Cyfweliad â'r Cyflawnwr Honedig a'r Partner

11.1 Mae'n bwysig ystyried pwy yw'r person mwyaf priodol i gyfweld â'r cyflawnwr honedig? Mae arfer dda yn awgrymu y dylai dau berson gynnal asesiadau o'r fath. Mae hyn yn sicrhau bod yr asesiadau yn parhau i ganolbwyntio ar y plentyn ac yn lleihau'r risg y bydd y plant dan sylw yn cael eu meithrin yn amhriodol gan y cyflawnwr honedig. Mae'n bwysig cofio efallai na fydd y wybodaeth a gesglir yn cynnwys atebion gonest, a bydd angen cymryd gofal i sicrhau bod unrhyw ddadansoddiad yn seiliedig ar dystiolaeth. Pan nad yw hynny'n bosibl, mae goruchwyliaeth yn bwysig o ran helpu gyda dadansoddi gwybodaeth a gesglir ar gyfer yr asesiad.

11.2 Mae amseru pryd y dylid cynnal asesiadau yn bwysig, a gall fod yn bwysig ceisio cyngor ar hynny mewn perthynas ag unrhyw achosion. Gellir defnyddio rhai neu'r holl gwestiynau canlynol wrth gyfweld â defnyddwyr honedig delweddau camdriniol o blant. Hefyd, gellir defnyddio'r cwestiynau gyda'r symbol (Ø) a chroeswirio hynny gyda phartneriaid fel rhan o'r asesiad o risg i blant ar yr aelwyd:

- Beth yw cyfanswm yr oriau y mae'r unigolyn yn ei dreulio ar-lein bob wythnos, a'r gyfran o'r amser hwnnw a dreuliwyd mewn cysylltiad ag eraill sydd â diddordeb rhywiol mewn plant neu mewn lawrlwytho delweddau?
- Beth fu lefel yr amhariad cyffredinol ar eu bywydau o ganlyniad i fod ar-lein, yn benodol mewn perthynas â gwaith neu berthnasoedd cymdeithasol bywyd real?
- A fu gostyngiad mewn diddordeb rhywiol (pan fo'n briodol) yn eu partner?
- A fu datgysylltu emosiynol oddi wrth aelodau'r teulu neu ffrindiau?
- Beth yw rhwydweithiau cymdeithasol presennol y person a lefelau'r cymorth emosiynol?
- Pa lefel o arwahanrwydd cymdeithasol sydd yn bresennol?
- A oes yna feddwl parhaus am fynediad i'r Rhyngrwyd fel bod yna anawsterau parhaus o ran canolbwyntio?
- Faint o gyfryngau Rhyngrwyd y ceir mynediad atynt (gwefannau, ystafelloedd sgwrsio, e-bost, grwpiau newyddion)?
- Beth maent yn ei wneud â phob un a pha lefel o bleser sydd yn gysylltiedig â'r gweithgareddau yma?
- Pa lysenwau a ddefnyddir a beth maent yn ei olygu i'r person?
- Sut mae deunydd a gaiff ei adfer o'r Rhyngrwyd yn cael ei gadw a'i drefnu (yn benodol, sut mae'n cael ei storio, sut mae ffeiliau yn cael eu labelu, pa newidiadau sydd yn cael eu gwneud i enwau ffeiliau sy'n bodoli)?
- Faint o amser sydd yn cael ei dreulio all-lein gyda'r deunydd a gasglwyd, naill ai'n golygu / sortio, neu'n cael eu defnyddio fel cymorth i fastyrbio?
- A yw'r delweddau wedi eu cyfnewid ag eraill (sut y gwnaethpwyd hynny, faint o ddeunydd ac i ba ddibenion)?

- A yw'r delweddau wedi cael eu creu drwy sganio lluniau oedd yn bodoli neu gan gamera digidol?
- A oes unrhyw ffantasiâu wedi cael eu gwireddu gyda phlant mewn gwirionedd (allai fod o natur rywiol iawn neu beidio)?
- A fu unrhyw gyswllt mewn bywyd real â phobl ar-lein (oedolion neu blant) y mae wedi eu cyfarfod ar-lein?
- Pa lefel o synfyfyrdod sydd yna mewn perthynas ag 'ail-fyw' profiadau'r gorffennol?
- Faint o amser gaiff ei dreulio yn meddwl am eu profiad diweddaraf ar y Rhyngrwyd (sgwrs neu ddelwedd), neu ar gynllunio'r un nesaf?
- A yw manylion am bobl eraill ar-lein yn cael eu cadw ac a yw'n myfyrio ar hynny?
- A yw'r person yn parhau i wneud addewidion y bydd yn rhoi'r gorau i fynd ar-lein, ac yna yn eu torri?
- A yw'r unigolyn yn cymryd risgiau o ran cael mynediad at y deunydd (naill ai oherwydd eraill yn y tŷ neu'r un ystafell) neu o ran ei storio?
- A yw delweddau wedi eu lawrlwytho tra bod plant yn yr ystafell neu'n agos?
- A yw delweddau wedi cael eu rhannu gydag eraill all-lein (cydweithwyr, plant)?
- A oes yna deimlad o gyffro cyn mynd ar-lein, neu deimlad o rwystredigaeth neu anfodlonrwydd pan fo hynny yn cael ei flocio?
- A yw'r person yn siarad ag eraill am weithgareddau rhywiol real neu ddychmygol gyda phlant?
- A oes yna hunan-gynrychioli fel unigolion eraill (naill ai yr un rhyw neu oed, neu'n wahanol)?
- Pa ymdrechion sydd wedi cael eu gwneud i gysylltu â phlant drwy'r Rhyngrwyd?
- Pa lefel o fastyrbio sydd yn gysylltiedig â gweithgareddau ar-lein?
- A yw mastyrbio yn digwydd ar-lein neu all-lein?
- Beth fu'r cynnydd neu'r newid mewn gweithgareddau rhywiol ers cael mynediad i'r Rhyngrwyd?
- A yw'r unigolyn yn cymryd rhan mewn perthnasau rhywiol rhithwir ag eraill (oedolion neu blant);
- A oes unrhyw newid wedi bod yn y math o destun neu ddelweddau y ceisir mynediad atynt(oedran, neu nodweddion eraill sy'n perthyn i'r plentyn, mathau o ddelweddau a'r lefel o erledigaeth)?
- A yw cyffroi rhywiol yn deillio o ddelweddau eraill nad ydynt o blant?

12.0 Goblygiadau i Ymarferwyr

12.1 Mae'n bwysig nad ydym yn chwyddo agweddau negyddol mynegiant rhywiol ar y Rhyngrwyd, naill ai yn nhermau ei raddau neu lefel ei fynegiant patholegol. Mae Cooper et al. (1999) wedi nodi nifer o agweddau cadarnhaol y gall y Rhyngrwyd fod yn gyfrifol amdanynt mewn perthnasau rhywiol, yn cynnwys lleihau rôl priodoleddau corfforol yn y penderfyniad cychwynnol i fwrw ymlaen â pherthynas. Fodd bynnag, yng nghyd-destun pobl sydd â diddordeb rhywiol mewn plant, gall y Rhyngrwyd chwarae rôl bwerus iawn mewn cyfiawnhau lefelau eithafol o ymgysylltu â deunydd sydd yn seiliedig ar gam-drin plant yn rhywiol (Quayleet al., 2000). Mae'r berthynas rhwng cyfiawnhau cynhyrchu a mynediad at ddelweddau o'r fath a chyflawni trosedd drwy gyffwrdd yn aneglur.

12.2 Nid yw modelau presennol o ymddygiad troseddol hyd yma wedi archwilio'r berthynas rhwng y troseddwr a'r Rhyngrwyd a sut mae'r berthynas honno yn hwyluso ymddygiad rhywiol, ar-lein ac all-lein. Byddai dadansoddiad o gyfweliadau gyda thri ar ddeg o ddynion a gollfarnwyd am lawrlwytho deunydd cam-drin plant yn rhywiol (Quayle a Taylor 2002) yn awgrymu er bod rhai troseddwyr yn defnyddio deunydd o'r fath fel amnewidyn am droseddau drwy gyffwrdd, mae yna eraill sydd yn mynegi dyheadau cryf i ymgysylltu'n gorfforol â phlant, ac y gall pornograffi ar y Rhyngrwyd weithredu fel glasbrint neu symbyliad ar gyfer troseddu iddynt. Mae yna hefyd bosibilrwydd gwirioneddol bod troseddwyr ryw yn cael eu newid gan, ac o ganlyniad i hynny yn cyfrannu at newid mewn eraill drwy'r Rhyngrwyd, mewn perthynas â chredoau, gwerthoedd a dulliau gwybyddol.

12.3 Mae'r cyfiawnhad bod y rhain yn droseddau heb ddioddefwyr, yn yr ystyr nad yw'r troseddwr efallai wedi cyflawni gweithred rywiol mewn gwirionedd â phlentyn (Taylor, Quayle & Holland 2001), yn annilys oherwydd bod y rhai sydd yn cael mynediad atynt yn gyfranogwyr parod mewn sefyllfa gamdriniol.

12.4 Yr her i ymarferwyr yw ceisio deall y rôl y gall y Rhyngrwyd ei chwarae mewn ymddygiad troseddol ac yn benodol, mynediad at a dosbarthu lluniau sydd yn dangos cam-drin plant yn rhywiol. Er mwyn gwneud hynny, mae angen deall sut mae troseddwyr yn defnyddio'r Rhyngrwyd ac i ymarferwyr fod yn hyderus am eu hasesiadau. Hyd yma, mae'r berthynas rhwng casglu deunydd cam-drin plant yn rhywiol, delweddau a fideos a chyflawni trosedd drwy gyffwrdd yn dal yn aneglur. Nes bod ymarferwyr yn cynnwys cwestiynau am ddelweddau o blant a'r Rhyngrwyd yn eu hasesiadau, sydd yn y pen draw yn hysbysu ymchwil, nid oes llawer o obaith o gynnig eglurder i'r maes cymhleth yma. Bydd ymarferwyr yn wynebu problemau sydd yn gysylltiedig â rhyngwyneb pobl â'r Rhyngrwyd yn gynyddol, ac mae dealltwriaeth o'r olaf yn ganolog i weithio gyda chleientiaid o'r fath.

Atodiad 1

Adran 3 rhan 1: Ymateb i adroddiad am oedolyn mewn perygl o gamdriniaeth a/neu esgeulustod

Adran 3 rhan 2: Cynadleddau gwneud penderfyniadau ac amddiffyn plant cychwynnol

Adran 4: Cynllunio ac ymyrraeth ar gyfer plant ar y gofrestr amddiffyn plant

Atodiad 2 : Asesiad o'r Gallu i Amddiffyn - Arwyddion Addawol a Chyfaddasol

Rhiant / gofalwr nad yw'n cam-drin

Bydd treigl amser a'r broses asesu ei hun yn effeithio ar ymateb y rhiant. Mae gan y gweithiwr gyfrifoldeb i roi i'r rhiant nad yw'n cam-drin wybodaeth berthnasol mewn perthynas ag ymddygiad troseddol rhywiol a cham-drin plant yn rhywiol. Rhan bwysig o'r broses asesu yw asesiad o'r gallu i newid.

Llai abl i amddiffyn

- Ymgais i guddio ar adeg datgelu. Amheuaeth o gyfranogi'n weithredol yn y gamdriniaeth;
- Diystyru digwyddiadau neu orsymleiddio esboniad am y gamdriniaeth;
- Gwadu risg bosibl yn y dyfodol;
- Ddim yn gwahaniaethu wrth rannu gwybodaeth am y gamdriniaeth;
- Heb ddweud wrth y teulu estynedig am y gamdriniaeth;
- Gwrthwynebiaeth barhaus tuag at yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol naill ai'n amlwg neu'n guddiedig;
- Yn emosiynol ac ariannol ddibynnol ar y cyflawnwr;
- Hanes o gyn berthnasau â phartneriaid camdriniol;
- Gwrthwynebus tuag at, ac yn beio'r dioddefwr yn cynnwys y teulu estynedig, ddim yn credu'r dioddefwr a pharhau i ymwneud â'r cyflawnwr;
- Yn emosiynol bell oddi wrth y plant;
- Wedi ymgolli yn ei anghenion ei hun allai fod yn gysylltiedig â'i hanes o gamdriniaeth ei hun;
- Hunan-werth isel;
- Problemau iechyd meddwl megis seicosis, iselder cronig, anhwylderau bwyta sydd yn golygu nad yw'r rhiant ar gael neu'n pellhau oddi wrth y plant;
- Camddefnyddio sylweddau yn cynnwys cyffuriau ac alcohol;
- Iechyd corfforol gwael neu anabledd neu broblemau cyfathrebu;
- Defnyddio credoau crefyddol i ryddhau cyfrifoldeb neu wadu risgiau posibl yn y dyfodol.

Mwy abl i amddiffyn

- Wedi mynegi pryder a dwyn sylw;
- Yn gwybod yr hanes llawn a manylion am y gamdriniaeth ac wedi rhoi eglurhad priodol i deulu/ffrindiau;
- Gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol;
- Cydweithredu â gweithwyr proffesiynol, ond hefyd yn barod i gymryd cyfrifoldeb am weithredoedd;

- Yn deall y broses o feithrin perthynas amhriodol;
- Yn barod i geisio cyngor;
- Yn perchnogi cyfrifoldeb am ganiatáu cartref i'r camdriniwr;
- Yn credu'r plentyn ac wedi ei gefnogi drwy gydol y datgeliad a'r therapi, neu wedi dangos newid mewn cred ac agwedd gydag amser, neu'n cydnabod teimladau ansicr;
- Perthynas dda â phlant;
- Sgiliau rhianta 'digon da'; Gallu cydymdeimlo â'r plentyn ac fel arfer yn rhoi anghenion y plant gyntaf;
- Personoliaeth gref - gallu gweithredu'n annibynnol;
- Gallu herio ymddygiad amheus yn y dyfodol gan y troseddwr;
- Hanes ei gamdriniaeth ei hun yn y gorffennol wedi ei ddatgelu, ond wedi gweithio ar ddatrysiad ei hun yn cynnwys hunanamddiffyn;
- Rhwydwaith parhaus o gymorth gan deulu/ffrindiau fydd yn darparu elfen o wyliadwriaeth, rhannu gwybodaeth a hyrwyddo diogelwch plant;
- Yn cadw apwyntiadau ag asiantaethau perthnasol e.e. Ymwelydd Iechyd, Meddyg Teulu.

<u>Perthynas cwpl</u>

Mae'n rhaid cyfweld â'r ddau oedolyn ar wahân a gyda'i gilydd. Mae angen i weithwyr ddangos sensitifrwydd tuag at hil, cefndir diwylliannol a dosbarth.

<u>Mae'r risg yn cynyddu yn yr achosion canlynol:</u>

- Cyd gyfranogi mewn camddefnyddio cyffuriau/alcohol, sadofasocistiaeth/trais;
- Cyflawnwr yn rheoli gofal personol o blant;
- Gwadu unrhyw broblemau yn y briodas;
- Perthynas briodasol wael;
- Y ddau bartner yn 'gyfrinachol'. dicter/pryderon ddim yn cael eu lleisio;
- Problem gyda perthynas bersonol/rywiol;
- Hanes o gam-drin domestig;
- Ffordd o fyw anaddas yn cael ei dystiolaethu gan batrwm gwaith;
- Cyfathrebu gwael - diffyg empathi rhwng partneriaid;
- Defnydd amlwg o bornograffi/ awyrgylch 'rhywioledig' yn y cartref.

<u>Mae'r risg yn lleihau yn yr achosion canlynol (yn cynnwys ffactorau amddiffynnol):</u>

- Mae'r ddau bartner wedi ceisio cymorth;
- Tasgau gofalu wedi eu trafod a chytuno ar reolau'r cartref;
- Tystiolaeth o allu i drafod y gamdriniaeth a dim diystyru / gwadu;
- Cwpl 'aeddfed', cefnogaeth dda gan y teulu estynedig, a dim cydgynllwynio;
- Agosatrwydd a chyswllt corfforol priodol;
- Gallu trafod materion rhywiol yn agored;
- Yn llunio ffiniau priodol o gwmpas sgyrsiau ac ymddygiad oedolion.

<u>Dull Rhianta. Mae'r risg yn cynyddu yn yr achosion canlynol:</u>

- Diffiniad anhyblyg o rolau;
- Arwahanrwydd cymdeithasol;
- Cyflawnwr yn gwneud penderfyniadau a rheolau mewn perthynas ag aelodau'r teulu.

Mae'r risg yn lleihau yn yr achosion canlynol:

- Plant yn ymwybodol o ffiniau, a'r ddau riant yn gwrando arnynt;
- Defnydd priodol o'r gymuned;
- Teulu yn gweithio'n agored â gweithwyr proffesiynol ar y cynllun adsefydlu.

Brodyr a Chwiorydd

Gwrando ar bob plentyn a siarad â nhw ar wahân mewn man diogel a phreifat. Mae'n rhaid asesu eu hanghenion a'r nodweddion bregus fel unigolion eu hunain.

Mwy bregus

- Hanes o gam-drin a'r canlyniadau ond wedi eu hadrodd yn rhannol ac wedi eu cadw'n gyfrinachol;
- Yn destun, neu wedi bod yn destun Cynllun Amddiffyn Plant mewn unrhyw gategori;
- Yn ystyried bod y dioddefwr yn 'ddrwg' mewn ffyrdd eraill - creu bwch dihangol o'r dioddefwr/ddim yn credu neu'n beio;
- Dim oedolyn y gall ymddiried ynddynt;
- Cofnod addysgol gwael;
- Anabledd/problemau cyfathrebu;
- Pryderon am esgeulustod/cam-drin corfforol/methu â ffynnu/niwed emosiynol posibl.

Mae'r risg yn cynyddu yn yr achosion canlynol:

- Cydymffurfio gormod, personoliaethau amhendant;
- Yn teimlo 'llai o ffafriaeth' yn y teulu;
- Cyswllt llygaid/ hunanddelwedd gwael;
- Yn teimlo gwahaniaethu ar sail hil, diwylliant neu ddosbarth.

Llai bregus

- Yn oedran briodol ymwybodol o gamdriniaeth a'r canlyniadau;
- Wedi cael eu cyfweld ac wedi cael amser i siarad ag oedolyn y tu allan i'r teulu y gellir ymddiried ynddo;
- Deall natur 'therapi' a gynigir i'r dioddefwr;
- Personoliaeth gref, bendant;
- Rheolau teulu wedi eu sefydlu mewn perthynas â phreifatrwydd, gofal personol ac ati;
- Strategaethau amddiffyn/ataliol wedi eu trafod;
- Addysg rhyw oedran briodol; Gall adnabod oedolion priodol sydd yn ddiogel ac y gellir ymddiried ynddynt.

Hefyd, dylid ystyried y ffactorau uchod mewn perthynas â phlant yn y teulu estynedig neu blant sydd yn ymwelwyr rheolaidd â'r aelwyd.

Dioddefwr neu ddioddefwr posibl. Mwy bregus

- Rhiant nad yw'n cam-drin yn ystyried y dioddefwr fel 'gwrthwynebydd' neu'n ei feio mewn rhyw ffordd;
- Yn parhau i arddangos ymddygiad rhywioledig iawn (yn amhriodol i'w oedran);
- Dim llawer o ffrindiau neu ddim oedolyn yr ymddiriedir ynddo neu deulu estynedig 'diogel';
- Anabledd/problemau cyfathrebu;
- Iechyd corfforol gwael;
- Anawsterau dysgu a chyrhaeddiad addysgol isel;
- Cyswllt llygaid, hunanddelwedd gwael;
- Iaith corff amhendant;
- Graddfa iechyd meddwl yn awgrymu iselder;
- Cydymffurfio gormod;
- Cynnal neu'n ceisio cynnal perthynas â'r camdriniwr;
- Yn teimlo gwahaniaethu ar sail hil, diwylliant, crefydd neu ddosbarth;
- Ddim yn gallu mynegi teimladau sy'n gysylltiedig â cham-drin.

Llai bregus (ffactorau amddiffynnol)

- Perthynas gariadus gref gyda'r rhiant nad yw'n cam-drin;
- Wedi ymgysylltu â therapi a'r teulu yn ei gefnogi i wneud hynny;
- Wedi dysgu strategaethau 'ataliol' ac addysg rhyw oedran briodol
- Profiad cadarnhaol o addysg a/neu weithgareddau diogel y tu allan i'r cartref;
- Gallu mynegi dymuniadau a theimladau i oedolyn yr ymddiriedir ynddo;
- Rheolau preifatrwydd wedi eu sefydlu yn y cartref;
- Hunan-werth cadarnhaol a hyderus;
- Gallu lleisio ansicrwydd tuag at y camdriniwr; Dangos hynny drwy barodrwydd i roi datganiad neu wedi hawlio iawndal;
- Rhwydwaith cyfeillgarwch cadarnhaol a sefydlog gyda chyfoedion;
- Yn, neu wedi bod yn destun **Cynllun Amddiffyn Plant** mewn unrhyw gategori.

Ffynhonnell: Morrison, T, Erooga, M. & Becket R.C. Sexual Offending Against Children 1994

Atodiad 3: Asesu oedolyn:

System Asesu Troseddwyr (OASys) [i'w gwblhau gan y Gwasanaeth Prawf yn unig]

Ar gyfer troseddwyr rhywiol neu dreisgar, yr offerynnau asesu cymeradwyedig a ddefnyddir gan y gwasanaethau carchardai a phrawf yw *OASys (System Asesu Troseddwyr)* a *Risk Matrix 2000* (gweler adran 13.4.16 *am fanylion Risk Matrix 2000)*.

Mae OASys yn offeryn asesu cynhwysfawr sydd yn gymwys i bob troseddwr, ond mae'n arbennig o werthfawr ar gyfer troseddwyr rhywiol a threisgar oherwydd ei fod yn ymgorffori agweddau statig a deinamig o'r risg y mae troseddwyr yn ei achosi. Mae OASys yn gosod troseddwyr mewn lefelau risg - risg uchel iawn, uchel, canolig a risg isel.
Mae'n darparu'r asesiad sydd ei angen ar gyfer rheoli achos yn effeithiol, targedu rhaglenni triniaeth ymyrraeth, atgyfeiriadau at bartneriaethau, dyrannu adnoddau a rheoli risg.

Dyluniwyd OASys er mwyn:

- Asesu pa mor debygol yr troseddwr o fod yn euogfarnedig eto;
- Nodi a dosbarthu anghenion sy'n gysylltiedig â throseddu, yn cynnwys nodweddion personoliaeth elfennol a phroblemau ymddygiadol gwybyddol
- Asesu risg o niwed difrifol, risgiau i'r unigolyn ac i eraill;
- Cynorthwyo â rheoli'r risg o niwed;
- Cysylltu'r asesiad â'r cynllun dedfryd;
- Dangos yr angen am fwy o asesiadau arbenigol;
- Mesur newid yn ystod y cyfnod goruchwylio / dedfryd.

Mae *OASys* yn asesu risg troseddwr o aildroseddu drwy archwilio'n systematig hyd at 13 o ffactorau cysylltiedig â throseddu sydd yn cynnwys hanes o droseddu; posibiliadau llety, addysg / hyfforddiant a chyflogaeth; perthnasoedd; camddefnyddio alcohol a chyffuriau; a llesiant emosiynol, meddyliau ac ymddygiad.

Mae hunanasesiad y troseddwr, sydd hefyd yn rhan o *OASys*, yn ddefnyddiol am ddau reswm:

- Mae'n adlewyrchu cywirdeb hunan ganfyddiad y troseddwr;
- Mae'n dangos tebygolrwydd y troseddwr o aildroseddu oherwydd bod aildroseddu yn gysylltiedig â gallu'r troseddwr i gydnabod ei broblemau ei hun.

Gellir ond defnyddio *OASys* ar droseddwyr 18 oed a hŷn. Mae Timau Troseddu Ieuenctid yn defnyddio asesiadau *Asset* ar gyfer plant. Mae yna elfennau sydd yn gyffredin rhwng *Asset* ac *OASys* fel pan fo troseddwr yn cyrraedd 18 oed, gellir defnyddio gwybodaeth o Asset i gwblhau *OASys*.

Lefelau risg o niwed

Mae'r lefelau risg o niwed a ddefnyddir gan *OASys* fel a ganlyn:

- Uchel iawn: Mae yna risg bod niwed difrifol ar fin digwydd. Mae'r digwyddiad posibl yn fwy tebygol na pheidio o fod ar fin digwydd, a byddai'r effaith yn ddifrifol;
- Uchel: Gwelir dangosyddion amlwg bod perygl o niwed difrifol. Gallai'r digwyddiad posibl ddigwydd ar unrhyw adeg a byddai'r effaith yn ddifrifol;
- Canolig: Gwelir dangosyddion amlwg bod perygl o niwed difrifol. Mae gan y troseddwr y potensial i achosi niwed ond mae'n annhebygol o wneud hynny oni bai

bod yr amgylchiadau'n newid, (er enghraifft peidio â chymryd meddyginiaeth, colli cartref, perthynas yn chwalu a chamddefnyddio cyffuriau neu alcohol);
- Isel: Nid oes yna ddangosyddion risg o niwed difrifol amlwg presennol.

Mae'r categoreiddio yn cynnwys risgiau i'r:

- Cyhoedd: naill ai'n gyffredinol neu i grŵp penodol megis yr henoed, merched neu grŵp ethnig lleiafrifol;
- Carcharorion: mewn carchar;
- Oedolyn hysbys: megis cyn ddioddefwr neu bartner;
- Plant: a allai fod yn agored i niwed o amryw fathau, yn cynnwys ymddygiad treisgar neu rywiol, niwed emosiynol neu esgeulustod;
- Staff: unrhyw un sydd yn gweithio gyda'r troseddwr boed hynny o'r gwasanaeth prawf, carchar, yr heddlu neu asiantaeth arall. Mae hyn yn gysylltiedig â phob math o gamdriniaeth, bygythiadau ac ymosodiadau sydd yn deillio o'u cyflogaeth;
- Yr hunan: y posibilrwydd y bydd y troseddwr yn lladd ei hun neu yn hunan-niweidio.

Ni all *OASys* ddarparu asesiad manwl o'r holl agweddau, yn enwedig yr agweddau risg arbenigol. Fe'i dyluniwyd i sbarduno mwy o asesiadau mewn rhai meysydd sydd yn gysylltiedig ag e.e. troseddwyr rhyw; troseddwyr treisgar; sgiliau elfennol; cyffuriau ac alcohol, iechyd meddwl ac anhwylder peryglus neu anhwylder personoliaeth difrifol; troseddu a gymhellir gan hiliaeth a thrais domestig.

Mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol geisio barn broffesiynol wrth asesu'r risg o niwed rhywiol y mae plentyn neu oedolyn yn ei achosi i blant.

Mae *Risk Matrix 2000* yn asesiad risg actwaraidd seiliedig ar dystiolaeth, a ddefnyddir gan y gwasanaeth prawf a'r heddlu i fesur risg o aildroseddu (yn hytrach na'r risg o niwed difrifol i eraill) ar gyfer troseddwr rhyw. Mae'n cael ei ysgogi gan, ac mae'n defnyddio'r un dosbarthiadau risg o aildroseddu ag *OASys*, a phan fo unrhyw anghysondeb rhwng y ddau offeryn asesu mewn perthynas â'r tebygolrwydd o aildroseddu, dylid cymhwyso lefel risg *Risk Matrix 2000*.

Ffynonellau eraill o asesu risg

Gall yr awdurdod cyfrifol ddefnyddio asesiadau neu offerynnau asesu eraill i ategu a hysbysu'n gritigol yr asesiad *OASys*. Mae datblygu a chynnal perthynas waith agos ag asiantaethau eraill yn y MAPPA yn hanfodol er mwyn hwyluso mynediad at yr asesiadau hyn (e.e. gan y gwasanaethau iechyd, iechyd meddwl neu anawsterau dysgu, gofal cymdeithasol i blant ALl neu oedolion, addysg, a gwasanaethau tai).

Mae'n rhaid i benderfyniadau proffesiynol amlasiantaeth hysbysu'r asesiad o risg o niwed.

Atodiad 4

Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru, Honiadau / Pryderon diogelu ynghylch ymarferwyr a'r rhai hynny mewn swyddi o ymddiriedaeth https://safeguarding.wales/en/chi-i/chi-i-c5

Atodiad 5 - Negeseuon o Faes Ymchwil - Rhybudd

Er bod ymchwil cyfredol yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r unigolion sydd yn edrych ar ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol yn achosi risg cymharol isel o gyflawni troseddau yn erbyn plant drwy gyffwrdd, mae'n rhaid i rywun gofio nad yw datganiadau am risg mewn poblogaethau mawr yr un fath â gwahaniaethu lefelau risg unigol mewn sefyllfaoedd amddiffyn plant penodol. Y sefyllfa yw y gall rhywun yr asesir sydd yn achosi risg isel i'r cyhoedd yn gyffredinol achosi risg annerbyniol o uchel i blant mewn amgylchiadau penodol.

Mae risg yn ddeinamig ac mae iddo aml ffactorau. Mae'n rhaid i'r risg y mae unigolyn yn ei achosi gael ei asesu ochr yn ochr â bregusrwydd unrhyw ddioddefwr posibl, ac ansawdd y warchodaeth sydd yn amgylchynu'r plentyn hwnnw

- yr hyn a elwir yn *driongl risg*. Mae'r ffactorau hyn i gyd yn ddynamig, gallant newid dros amser a dylanwadau ar ei gilydd.



Deunydd Cam-drin Plant yn Rhywiol vs. Pornograffi Plant

Weithiau, cyfeirir at Ddeunydd Cam-drin Plant yn Rhywiol fel pornograffi plant. Fodd bynnag, dylid osgoi defnyddio'r term "pornograffi plant" am y rhesymau canlynol:

- Nid yw'r term pornograffi plant yn disgrifio gwir natur y deunydd ac mae'n tanseilio difrifoldeb y camdriniaeth o safbwynt y plentyn.

- Mae pornograffi yn derm a ddefnyddir yn bennaf i ddisgrifio deunydd sy'n dangos oedolion yn cymryd rhan mewn gweithredoedd rhywiol gyda chaniatâd a ddosbarthir at ddibenion pleser rhywiol. Mae defnyddio'r term hwn yng nghyd-destun plant yn peri risgiau o ran normaleiddio, diystyru neu hyd yn oed cyfiawnhau cam-drin rhywiol a chamfanteisio ar blant.

- Mae pornograffi plant yn awgrymu bod caniatâd wedi'i roi, ac ni all plentyn roi caniatâd yn gyfreithiol.

Deunydd cam-drin plant yn rhywiol o bornograffi plant a thrais rhywiol

Mae'r drafodaeth ynghylch yr effeithiau niweidiol posibl o wylio anweddus o blant a'r cyswllt â thrais rhywiol wedi bod yn mynd rhagddi ers degawdau. Mae llawer o ymchwilwyr enwog wedi llunio astudiaethau sydd, y maent yn honni, yn profi ac yn gwrthbrofi effaith y darluniau hyn ar droseddu rhywiol.

Mae diffiniadau moesol, cyfreithiol a goddrychol yn bod ar draws y byd ond maent yn amrywio yn dibynnu ar y wlad a'r prif systemau cred yn y wlad honno.

I ran fwyaf yr ymarferwyr gofal cymdeithasol yn y D.U., fodd bynnag, digon yw dweud y bydd cyfranogiad ag unigolion sy'n cael eu dal yn meddu ar ddelweddau o gam-drin plant, bron bob amser yn codi i ganlyniad i ymchwiliad gan yr heddlu, ac atafael delweddau, y mae meddu arnynt yn drosedd yn unol â'r Ddeddf Amddiffyn Plant 1978 - diwygiwyd 1994. Mae honno yn nodi:

"Mae'n drosedd i berson.....

a. *gymryd, neu ganiatáu cymryd, neu greu, unrhyw ffotograffau anweddus neu ffug-ffotograffau o blentyn;*

b. *i ddosbarthu neu ddangos ffotograffau neu ffug-ffotograffau anweddus o'r fath."*

A yw troseddwyr Rhyngrwyd yn cyflawni troseddau drwy gyffwrdd?

Mae'r Rhyngrwyd yn cynnig yr hyn sydd wedi cael ei ddisgrifio fel y "tair A", sydd yn ysgogi defnydd mor anferthol;

- Anhysbysrwydd - mae'n weithgaredd hynod breifat pan fo unigolyn yn credu bod ei hunaniaeth yn ddiogel;
- Fforddiadwyedd - mae'n rhad;
- Hygyrchedd - mae ychydig gliciau i ffwrdd ar gyfrifiadur rhywun yn y cartref (Cooper 2002).

Ymchwil Pellach:

Sefydliad Internet Watch
Canolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol

Rhai negeseuon wrth gynnal asesiadau o droseddwyr Rhyngrwyd yn y cartref

- **Nid yw risg isel yn golygu dim risg**, a gall troseddwr yr aseswyd ei fod yn risg isel at ddibenion rheoli troseddwyr achosi risg annerbyniol o uchel i blant dan amgylchiadau penodol (David Thornton 2005);
- Bydd rhai troseddwyr a euogfarnwyd wedi derbyn triniaeth, ond nid yw effaith triniaeth ar risg yn achos troseddwyr Rhyngrwyd yn hysbys hyd yma;
- Mae'n debyg bod mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol oherwydd chwilfrydedd a diddordeb cyffredinol mewn deunydd rhywiol gwyrdroëdig yn eang iawn, ac ychydig o dystiolaeth sydd ar gael bod ymddygiad o'r fath yn cynyddu risg unigolyn o gyflawni troseddau uniongyrchol. Fodd bynnag, mae'n anochel y bydd yna unigolion sydd wedi cyflawni troseddau drwy gyffwrdd nad ydynt wedi eu dal, ac sydd hefyd yn defnyddio delweddau anweddus o blant;
- Os oes gan droseddwr Rhyngrwyd euogfarnau blaenorol neu honiadau credadwy yn ei erbyn yn y gorffennol, mae defnyddio delweddau o gam-drin plant yn arwydd o risg bresennol uwch.

Fel yma mhob maes gwaith mae'n bwysig bod pob gweithiwr proffesiynol yn diweddaru eu gwybodaeth yn barhaus. Yn y maes gwaith cymharol newydd yma, mae tystiolaeth o waith ymchwil yn ymddangos sydd yn darparu gwybodaeth newydd seiliedig ar dystiolaeth er mwyn diweddaru ein gwybodaeth a hysbysu ymarfer. Am ragor o wybodaeth, gweler y **Canllawiau Ymarfer ar Chwilfrydedd Proffesiynol gan Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru.**

I gael y wybodaeth ddiweddaraf, edrychwch ar wefannau defnyddiol y sefydliadau canlynol:

Sefydliad Internet Watch
Canolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol
Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein
Mae'r Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein yn darparu gwasanaeth aml-asiantaeth sydd yn rhwymedig i daclo camfanteisio ar blant. Mae hynny'n golygu casglu gwybodaeth am y risgiau, tracio a sicrhau bod troseddwyr yn atebol naill ai'n uniongyrchol neu gyda Heddlu Gogledd Cymru a gweithio gyda phlant a rhieni i ddarparu rhaglen ddiogelwch Rhyngrwyd ThinkuKnow.

Cyfeiriadau

Dr Graham Hill, Canolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol
Sefydliad Internet Watch
Canolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol
Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein